Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD ARBENNIG
O GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD LLUN, 27 IONAWR 2014**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for an

**EXTRAORDINARY MEETING
OF THE ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**MONDAY, 27 JANUARY 2014**

**at 2.00 pm**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog.

2 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

3 **CYNLLUN COSTYNGIADAU'R DRETH CYNGOR 2014-15**

(a) Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr, 2014 ac wedi penderfynu argymell I'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- *"Nodi fod Cynulliad Cymru ar 26 Tachwedd 2013 wedi creu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Y Rheoliadau Gofynion a Ragnodir) a bod Cynulliad Cymru ar 14 Ionawr 2014 yn creu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Y Rheoliadau Gofynion a Ragnodir a'r Rheoliadau Diofyn) (Diwygiad) 2014.*

- *Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliodd y Cyngor ynghylch adnewyddu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2014-15.*

- *Mabwysiadu'r Cynllun fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad".*

(b) Cyflwyno adroddiad Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

4 **AMSERU CYFARFODYDD**

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r :** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **27 Ionawr 2014** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** |
| **Swyddog(ion)** | **Clare Williams**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Jones**<br>**Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau (Est. 2651)** |
| **Gweithrediad :** | **I fabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** |

**1. Pwrpas yr adroddiad**

**1.1** Mae'r adroddiad yn esbonio'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2014.

**2. Gwybodaeth Gefndirol**

**2.1** Yn Ebrill 2013, disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gwnaed dwy set o reoliadau gan Weinidogion Cymru: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

**2.2** Roedd y Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal hwn, nid oedd Rheoliadau 2012 ond yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2013/2014. Yn unol â'r cymal hwn, roedd rhaid adolygu'r rheoliadau a chyflwyno cyfres newydd erbyn 1 Ionawr 2014. Oni fyddai'r rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw, ni fyddai darpariaeth ar gyfer gweithredu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

**2.3** O'r herwydd, cyflwynodd Gweinidogion Cymru reoliadau newydd a fydd yn rheoli'r modd y gweithredir Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru o 1 Ebrill 2014. Mae un gyfres yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn eu hardaloedd ar gyfer gweithredu arnynt o 1 Ebrill 2014 ac maent yn rhagnodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun lleol ynghyd â'r meysydd hynny lle gellir defnyddio disgresiwn lleol. Roedd y gyfres arall o Reoliadau yn rhagnodi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor diofyn a ddaw i rym oni fydd awdurdod lleol yn mabwysiadu ei gynllun ei hun. Daw'r Rheoliad i rym erbyn 31 Ionawr 2014 oni fydd awdurdod lleol wedi sefydlu cynllun lleol.

**2.4** Parhawyd i ddefnyddio'r un dull yn Rheoliadau 2013 â'r un a fabwysiadwyd yn Rheoliadau 2012 gan gadw'r fframwaith cenedlaethol o gefnogaeth ac nid yw lefel y cymorth i hawlwyr cymwys wedi newid. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2012 yn unol ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Dyma'r newidiadau ychwanegol a wnaed i Reoliadau 2012:-

- Gwneud i ffwrdd â'r cymal machlud gan olygu y bydd Rheoliadau 2013 yn cael eu defnyddio y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2014/2015;
- Rhoi sylw i fân-waith diwygio technegol er mwyn eu cysoni gyda Rheoliadau Lloegr;
- Maent yn cynnwys y gwaith diwygio y mae angen ei wneud ar gyfer rhai newidiadau o ran diwygio lles, e.e. Credyd Cynhwysol a Thaliad Annibyniaeth ar gyfer y Lluoedd Arfog;

- Y gwaith symleiddio a awgrymwyd gan Lywodraeth Leol llynedd (ond nad oedd modd ei gynnwys yn yr amserlen) er mwyn gwella'r broses ar gyfer ymgeiswyr a lleihau'r costau gweinyddol;
- Yr addasiadau ymarferol sydd eu hangen yn sgil gweithredu'r cynllun ers Ebrill 2013, e.e. diwygio'r ddarpariaeth o ran newid mewn amgylchiadau; a
- Ymateb i bwyntiau o godwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad technegol.

**2.5** Ar 27 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynulliad Cymru ddwy gyfres newydd o reoliadau: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig"). Mae'r Rheoliadau 2013 hyn yn rhagnodi prif nodweddion y Cynllun sydd i'w fabwysiadu gan yr holl Gynghorau yng Nghymru ar gyfer 2014 - 2015 ymlaen.

**2.6** Trafodwyd a chymeradwyodd Cynulliad Cymru, set bellach o reoliadau i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynyddiadau costau byw, sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diogyn) (Cymru) (Diwygio) 2014. Mae cynllun y Cyngor yn caniatáu i'r ffigyrau ariannol sydd wedi eu huwchraddio i gael eu hymgorffori o fewn y cynllun a argymhellir i'w fabwysiadu.

**2.7** Yr un modd â Rheoliadau 2012, mae'r dull o weithio allan y gostyngiadau treth gyngor dan Reoliadau 2013 yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd i gyfrifo'r hen Fudd-dal Treth Gyngor. Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn amlinellu'r cynllun a fydd yn berthnasol i ardal Awdurdod Lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Rheoliadau Cynllun Diofyn yn adlewyrchu'r rheiny yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig.

**2.8** Yn debyg i Rheoliadau 2012, er bod cynllun cenedlaethol wedi'i gymeradwyo, rhoddir ychydig o ddisgresiwn i'r Cyngor, o fewn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig i weithredu elfennau dewisol ychwanegol sy'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol ac sy'n darparu mwy o hyblygrwydd gweinyddol. Y rhain yw:-

**2.8.1** Y gallu i ymestyn y cyfnod taliadau estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith sydd wedi bod yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn flaenorol ac sy'n dod i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

**2.8.2** Y disgresiwn i gynyddu'r swm o Bensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Gweddwon Rhyfel sydd i'w ddiystyru wrth asesu incwm yr hawliwr.

**2.8.3** Gallu i ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am ostyngiadau yn y Dreth Gyngor cyn y cyfnod safonol newydd o dri mis cyn y cais.

**2.9** Rhaid i'r Cyngor hefyd fabwysiadu ei gynllun drafft ac ymgynghori gydag unrhyw bobl sydd, yn ei dyb ef, yn debygol o fod â diddordeb yng ngweithrediad ei gynllun. Ar ôl sefydlu cynllun, rhaid i'r awdurdod ei gyhoeddi mewn modd priodol. Oherwydd yr amserlen dynn rhwng cyhoeddi'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a 31 Ionawr 2014 (y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid mabwysiadu'r cynllun), mae'r ymgynghori wedi cael ei gwtogi i gyfnod rhwng 9 Rhagfyr 2013 a 10 Ionawr 2014.

**2.10** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad technegol rhwng 23 Awst 2013 a 20 Medi 2013 ar y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.

## 3. Prif Faterion

**3.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ar gyfer 2014/2015 lunio cynllun dan ofynion y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig er gwaethaf y ffaith y byddai cynllun diofyn yn weithredol pe bai'r Cyngor yn methu â llunio cynllun. Dyletswydd statudol yw'r rhwymedigaeth hon ac mae'n berthnasol hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn dewis peidio â gweithredu unrhyw ddisgresiwn sydd ar gael iddo.

**3.2** Y dull sy'n cael ei argymell i'r Cyngor o ran y disgresiwn lleol sydd ar gael yw parhau i ddefnyddio ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2014/2015, yr un disgresiwn lleol ag a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013/2014:-

- Dim newid i'r 4 wythnos safonol bresennol o daliadau estynedig ar ôl i bobl ddychwelyd i'r gwaith heb ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn lleol.
- Yn achos Pensiynau Pensiwn Rhyfel a Phensiynau Anabledd Rhyfel, bydd y Cyngor, wrth glandro'r incwm, yn parhau i ddiystyru incwm fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau cyfredol. Rhagwelir y bydd y gost flynyddol barhaus i'r Cyngor ar gyfer 2013/2014 oddeutu £8,000 y flwyddyn.
- Bydd y mwyafswm gall ôl-ddyddio yn parhau ar y 3 mis statudol ar gyfer ymgeiswyr oed pensiwn ac oed gwaith, gyda ddim disgresiwn lleol yn cael ei ddefnyddio.

Dylid nodi nad oes arian ychwanegol ar gael gan Llywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau disgresiwn, fel yn 2013/2014.

**3.3** Yn unol â Rheoliadau 2013, rhaid i'r Awdurdod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ystyried a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda chynllun arall. Rhaid i'r Awdurdod ddiwygio neu ddisodli'r cynllun erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn cyn iddynt ddod i rym.

**3.4** Ni ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu cynllun i swyddog gweithredol mewn awdurdod dan drefniadau gweithredol.

## 4. Goblygiadau Ariannol

**4.1** Amlinellwyd y goblygiadau ariannol yn yr adroddiadau cyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Cost amcangyfrifiedig y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2013/2014 yw £5.29m. Byddai cynyddu'r Dreth Gyngor i 5% yn cynyddu'r gost i £5.56m. Felly, cost rhagamcanedig y cynllun arfaethedig yn 2014/2015 yw rhwng £5.1m a £5.61m, sydd £350k i £460k yn uwch na'r grant o £5.15m. Y prif faes o ansicrwydd yw'r baich llwyth gwaith. Yn y blynyddoedd diweddar, mae baich llwyth gwaith hawlwyr wedi cynyddu hyd at 6% mewn unrhyw flwyddyn (y cyfartaledd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf yw 3%). Er bod y baich gwaith bellach wedi sefydlogi, mae rhesymol disgwyl y bydd yn cynyddu yn yr amgylchiadau economaidd cyfredol. Mae pob cynnydd o 1% yn £53k.

**4.2** Cynigir darpariaeth gyllidebol o £400k i gwrdd â'r diffyg hwn a bydd yn cael ei fonitro yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar fonitro'r gyllideb.

## 5. Goblygiadau cyfreithiol

**5.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun diofyn a fydd yn cael ei weithredu oni fydd y Cyngor yn llunio cynllun, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed os yw'n dewis peidio â gweithredu unrhyw un o'r elfennau disgresiwn.

6. **Goblygiadau risg**

**6.1** Rhaid i'r Cyngor reoli cost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o fewn ei gyllideb. Mae'r cymorth gan y Llywodraeth wedi'i gyfyngu i £5,154,000 am 2014/2015 ac fe'i darperir ar sail sefydlog yn hytrach nag ar sail cymorth gyda'r budd-dal dreth gyngor yn seiliedig ar y galw.

7. **Goblygiadau Cydraddoldeb**

**7.1** Fel y dywedwyd ym mharagraffau 2.4 a 2.5 yr adroddiad hwn, mae Rheoliadau 2013 yn adlewyrchu'r clandriadau ar gyfer Rheoliadau 2012 ac yn atgynhyrchu ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth gyngor, y dull a fabwysiadwyd i glandro'r hen Fudd-dal Dreth Gyngor. Mae Rheoliadau 2013 yn cadarnhau y bydd hyd at 100% o ostyngiad yn berthnasol.

**7.2** Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferiad ymgynghori o fewn yr amser cyfyngedig oedd ar gael. Mae'r ymgynghoriad yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

**7.3** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn ei ymgynghoriad ar Reoliadau 2012. Cynhaliwyd asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldeb ar ran y Cyngor ac fel rhan o drefniadau ar y cyd ar draws Cymru mewn perthynas â Rheoliadau 2012 ac mae copi ar gael ar gais gan yr Adran Gyllid.

**Dogfennau Cefndir**

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (Cy.301).

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 Rhif 3035 (Cy.303).

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014.

Ymgynghoriad Technegol ar y Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 - 20 Medi 2013.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad Technegol ar y Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

**Crynodeb o'r prif faterion**

1. Disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013 ar gyfer 2013/2014 yn unig. Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sydd bron yn union yr un fath yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 2014/2015 ymlaen.

2. Bydd yr arian a roddir gan Lywodraeth Cymru yn sefydlog, yn seiliedig ar gost y Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor blaenorol.

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rheoliadau i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2014/2015. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun ar gyfer 2014/2015.

4. Mae'r ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2014.

5. Amlinellir crynodeb o'r cynllun yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Bydd costau'r cynllun yn fwy na'r arian a ddaw gan y Llywodraeth. Ystyrir y gofynion ariannol ychwanegol fel rhan o gyllideb 2014/2015.

**Argymhelliad**

1. Nodi ffurfio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) ("Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cymru ar 27 Tachwedd 2013 a'r rheoliadau diwygio ar 14 Ionawr 2014 sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014.

2. Nodi canlyniad yr ymarferiad ymgynghori a wnaed gan y Cyngor wrth gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a amlinellir yn Atodiad B.

3. Mabwysiadu'r Cynllun fel yr amlinellir yn Atodiad A.

4. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i newid y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2014/2015 os bydd angen cymryd ystyriaeth o unrhyw reoliadau diwygio sydd wedi eu pasio gan Gynulliad Cymru.

**GERAINT H JONES**
**RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU** **13 IONAWR 2014**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2014 - 2015

**(a blynyddoedd y dyfodol)**

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef y dull cyfredol o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Treth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012 gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**. Ar 22 Ionawr 2013 gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a Rheoliadau Diofyn)(Cymru)(Diwygio) 2013 **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013 - 2014. Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru. Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 27 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd: "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013 **("Rheoliadau Diofyn")** a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 **("Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig")**". Mae'r rhain ar gael ar:-

**Rheoliadau Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3035/contents/made

**Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3029/contents/made

**Rheoliadau Diwygio**

Ar 14 Ionawr 2014, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru set bellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol a nodwyd yn ystod sgriwtineiddio'r Rheoliadau 2013 - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014. Mae'r rhain ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/????/contents/made

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2014 ar gyfer 2014 - 2015 ac ymlaen.

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Gofynion Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel y diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2014, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig.

Cafwyd ar ddeall gan Lywodraeth Cymru y bydd diwygiadau llai i reoliadau technegol a wnaethpwyd y llynedd, fel y rhai'n berthnasol i ymholiadau twyll yn cael eu cyflwyno rhwng Ionawr a Mawrth 2014.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd cyfarfod o Gyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 27 Ionawr, 2014 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2014 a hefyd blynyddoedd y dyfodol. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig:-

**1.** Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad

**2.** Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt

**3.** Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

- Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.
- Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.
- Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cynllun Lleol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (Cy.301) (**Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig**) a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 (**Rheoliadau Diwygio)**. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliad Diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3029/contents/made

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/????/contents/made
.
I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig**:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys - dosbarthiadau neu bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: Dosbarthiadau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Eraill nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: Categorïau o bobl na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Categorïau o bobl sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlenni 6 i 10 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi'r darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei dilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl eraill, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei darparu wrth roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**<u>Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor</u>**

Mae Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu hanwybyddu fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Mae'r Cynllun Dewisol hwn ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel yr un fath â'r Cynllun a oedd mewn grym ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**ATODIAD 1**

**Manylion am y weithdrefn y dylai person ei dilyn i wneud cais am ostyngiad dan y cynllun**

Rhaid i bob unigolyn gyflwyno cais i gael Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, oni bai fod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hyn ar ffurf ffurflen gais electronig neu ffurflen gais bapur am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor a fydd yn cael ei hanfon i'r swyddfeydd dynodedig canlynol.

**A.** Gellir cyflwyno ceisiadau electronig fel a ganlyn:-

**i.** Trwy apwyntiad i fynychu i lenwi'r ffurflen yn Swyddfa'r Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW (Rhif Ffôn 01248 752658/752226) neu, yn achos cleientiaid bregus, apwyntiad i swyddog fynd i'w cartrefi i lenwi'r ffurflen gais;

**ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn gyda'r Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW (Rhif Ffôn 01248 752658/752226);

**iii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen yng Nghanolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);

**iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn;

**v.** "Local Authority Input Document (LAID)" ac y "Local Authority Customer Information (LACI)" yr Adran Gwaith a Phensiynau lle maent yn datgan y bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor;

**vi.** Yn electronig mewn fformat arall y gall Cyngor Sir Ynys Môn benderfynu arno yn y dyfodol.

**B.** Gellir cyflwyno cais papur fel a ganlyn –

Trwy ffurflen gais swyddogol a dderbyniwyd gan Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau Ynys Môn yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW neu yn y Swyddfa Budd-daliadau, Ystafell 3, Ail Lawr, Neuadd y Dref, Stryd Newry, Caergybi, LL65 1HU.

**ATODIAD 2**

**CYNLLUN LLEOL - ANWYBYDDU PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – nad ydynt yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | INCWM YN CAEL EI ANWYBYDDU |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydy<br>(£10 statudol, 100% lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydy<br>(£10 statudol, 100% lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 – SPAL) | Ydy<br>(2014 - 2015 100% statudol, £??.?? yn amodol ar gynnydd blynyddol*) |
| Atodiad i'r Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans Ychwanegol i'r Wraig (a delir gydag Atodiad i'r Anghyflogadwy) | Na |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydy (statudol) |
| Lwfans Analluedd | Na |
| Lwfans Cysuron | Na |
| Lwfans Oedran | Na |
| Lwfans am safon is o waith | Na |
| Lwfans Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydy (statudol) |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Ydy (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol – Anabledd Difrifol | Ydy (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

*pennir gan y Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth "Anabledd a Marwolaeth" Lluoedd Llynges, Y Fyddin ac Awyr a.y.b. 2006. Nid yw'r uwchraddiad am 2014 - 2015 wedi cael ei dderbyn eto.

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2014 - 2015

**Rhagarweiniad a rheswm dros ymgynghori**

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ymgynghoriad rhwng 9 Rhagfyr 2013 a 10 Ionawr 2014 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddisodli'r Cynllun Cyfredol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Roedd yr hen Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhedeg am y cyfnod 2013-2014 yn unig a phe na bai Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun pellach i gynorthwyo aelwydydd incwm isel i gwrdd â chostau'r Dreth Gyngor ar ôl 31 Mawrth 2014 ni fyddai cynllun o'r fath yn bodoli yng Nghymru.

Fel oedd yn wir am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2013-2014 mae'r cynllun ar gyfer 2014-2015 hefyd yn caniatáu gostyngiad o hyd at 100%.

